CYNGOR CYMUNED LLANELLTYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD MEDI 12, 2023

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref, Llanelltyd**
**Nos Fawrth, Medi 12, 2023 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Llinos Rowlands, Geraint Rowlands, Eleri Jones. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** Elfed ap Gomer, Gwenan Owen a Gareth Ellis.

**2. Datgan diddordeb:**

Doedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 11, 2023**

Wedi cywiro roedd Simon Evans (Cadeirydd) yn bresennol, cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cyfarfod Gorffennaf 11, 2023**

Eitem 11.a.1. Anfonwyd eto (12/7/2023) i'r aelodau adroddiad Cyngor Tref Criccieth ar Fioamrywiaeth gan ddisgwyl bydd ein hadroddiad ar yr un cynllun.

Eitem 11.b. Llythyr (14/7/2023) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein llythyr yn cefnogi eu bwriad i gael grant.

Eitem 6.b. Anfonwyd (13/7/2023) y llythyrau i Archwilio Cymru.

Eitem 9.dd. Llythyr (27/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu cyflwyniad gwnaeth Tom Williams o MAGNOX ar ddyfodol Trawsfynydd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd o Un Llais Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (19/7/2023) oddi wrth Cerebral Plasy Cymru. Therapi a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Bil (20/7/2023) am £246.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2022/2023.

Talwyd y bil (28/7/2023).

c.  Derbyniwyd (25/7/2023) £223 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab am gladdu gweddillion Albert Charles Walker.

ch.  Bil (31/7/2023 am £150 oddi wrth John Arfon Owen am agor bedd ar gyfer gwasanaeth claddu llwch ar 28/7/2023.

Talwyd y bil (1/8/2023).

d.  Derbyniwyd (3/8/2023) £114 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at ail osod beddfaen ar y diweddar Henry David Walker.

dd.  Llythyr (25/8/2023) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £3,750 yn ein cyfrif ar 28/8/2023.  Taliad am hanner blwyddyn.

e.  Bil (31/8/2023) am £38 oddi wrth Un Llais Cymru tuag at daliad Llinos Rowlands am fod yn bresenol ar gwrs New Councillor Induction ar 10/7/2023.
Tystysgrif oddi wrth Un Llais Cymru yn cadarnhau bod Llinos Rowlands wedi cwblhau hyfforddiant Cynefino i Gynghorwyr Newydd.

Penderfynwyd talu'r bil.

f.  Derbyniwyd (11/9/2023) £114 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at ail osod beddfaen ar y diweddar Donald William Allen a Barbara Mary Allen.

ff.  Balans yn y banc ar 29/7/2022:  £7,634.95.    (29/7/2022:  £9,941.91).

g.  Balans yn y banc ar 29/8/2023:  £7,423.87.    (29/8/2022:  £11,238.53).

## 6.  Archwilio

a.  Llythyr (14/7/2023) oddi wrth yr Archwiliwr yn gofyn am dystiolaeth roedd y datganiad o daliadau wedi ei anfon i IRPW.

Anfonwyd y wybodaeth iddynt (14/7/2023).

## 7.  Mynwent Llanelltyd

a.  Llythyr (18/8/2023) oddi wrth Mrs Sonja Benskin Mesher, Tynllan, Llanelltyd  yn holi os mae'n bosib tocio ychydig o'r goeden gelyn sy'n tyfu ar ffin y fynwent.  Mae'r wraig yn canmol y gwaith sy'n cael ei wneud i gadw'r fynwent mewn cyflwr da.

Gofynnwyd i Mr Meurig Ashton gwneud y gwaith.
Cafodd y gwaith ei wneud.

## 8.  Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

**9. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/6/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod ‘Paratoi Cymru ar gyfer 20mya’. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal gan Micosoft Team ar 3/7/2023 am 1.00yp.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

b. Llythyr (13/7/2023) oddi wrth Tom Haynes, Coedwig Genedlaethol i Gymru, Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno ei hun i wella a chreu coetiroedd o bob math a chreu coedwigoedd i ymuno â CGG. Bydd arian ar gael drwy Grant Buddsoddi Mewn Coetirwedd (TWIG).

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

c. Llythyr (20/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Gorffennaf ac Awst, 2023.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

ch. Llythyr (24/7/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd ynglŷn â Gorchmynion Rheoleiddio Traffig sy'n cael eu prosesu ar hyn o bryd yn ardal Meirionnydd. Yn ardal ni y bwriad i’w rhoi rheol dim aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y ffordd A496 ar naill ochr a’i gyffordd â’r Hen Swyddfa Bost, Bontddu. Mae hyn yn cynorthwyo gyda diogelwch, mynediad a symudiadau traffig a chreu gwella gweledeedd cyffordd. Os mae gwrthwynebiadau maent eu hangen cyn 21 Awst 2023.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

d. Llythyr (25/7/2023) oddi wrth Gethin Williams yn rhoi gwybod mae angen clirio chwyn sy’n tyfu trwy balmentydd Bontddu.

Cafodd y llythyr ei anfon hefyd i Cwynion, Cyngor Wynedd ac mae Swyddog Gwella Gwasanaeth, Cyngor Gwynedd am ddelio â’r mater.

dd. Llythyr (1/8/2023) oddi wrth ‘Diolch am 20’ gyda gwybodaeth ar 20mya.

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

e. Llythyr (2/8/2023) oddi wrth Rheolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Erthygl 4 ar gyfer rheoli’r defnydd o dai preswyl yn Ardal Cynllunio Leol Gwynedd (tu allan i Parc Cenedlaethol Eryri) .

Anfonwyd y llythyr i’r aelodau.

f. Llythyr (2/8/2023) oddi wrth Mabon ap Gwynfor MS yn rhoi gwybod am gyfarfod i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal bydd yn cael ei gynnal ar ddydd Llun Medi 11 am 10.30yb. Os mae materion i godi mae eu hangen cyn y cyfarfod, a chael gwybod pwy fydd yn bresennol. Amgáu mae linc i gofrestru.

Llythyr (22/8/2023 a 5/9/2023) yn atgoffa am y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

Ymunodd Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn y cyfarfod. Dywedodd nid yw sefyllfa ddeintyddol ddim yn dda er roedd canmoliaeth i bractis Eirlys yn Dolgellau. Mae awgrym i gyflogi deintyddion yn yr ysbytai.

ff. Llythyr (8/8/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod mae ganddynt ddodrefn eu rhoi i sefydliadau cyhoeddus; angen eu casglu yn Abergele.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (9/8/2023) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda dogfen Gorchymyn Terfynol gwaharddiadau, cyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd a dirymu (Ardal Meirionnydd (Rhif 10)) 2023. Mae yn cynnwys dim aros ar unrhyw adeg ar Ffordd Dosbarth 1 – Ffordd yr A496 ar ochr orllewinol y ffordd ar naill ochr a'i gyffordd â'r Hen Swyddfa'r Bost. Y rheswm am y Gorchymyn yw cynorthwyo gyda diogelwch, mynediad a symudiadau traffig a chreu gwella gweledEdd cyffordd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (11/8/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am lansiad dwy gronfa ar gyfer datblygu busnes gan Cyngor Gwynedd ar 15/8/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (25/8/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau ym mis Awst a Medi.

j. Llythyr (31/8/2023) oddi wrth Gwasanaethau Etholiadau Gwynedd, Cyngor Gwynedd gyda holiadur yn gofyn:
os mae sylw angen ei wneud â ffiniau y Gymuned,
os ydym yn hapus gyda nifer o gynghorwyr ar y Cyngor Gymuned - h.y. 9.
os ydym yn hapus â'r wardiau – h.y. Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

<u>Penderfynwyd</u> cwblhau'r holiadur gyda awgrym i'r Cyngor ymuno gyda Chyngor Cymuned Ganllwyd.

 Llofnod: Dyddiad:

l. Llythyr (1/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o swyddi gwag sydd ganddynt eu llenwi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ll. Llythyr (1/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol, Llanelwedd ar ddydd Sadwrn 30/9/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

m. Llythyr (4/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Society of Local Councils ar 8/11/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

n. Llythyr (5/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod 'Community Speed Watch' mae GoSafe a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei gynnal ar 7/9/2023. am 6.00yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (5/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y cyfarfod wedi cael ei ganslo.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

o. Llythyr (7/9/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant i gefnogi cynlluniau bwyd a bwydo cymunedol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

p. Llythyr (7/9/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda ffurflen am wybodaeth maent ei angen am Concrit Awyredig Awtoclafedig Atgyfnerthedig (RAAC) yn adeiladau cyhoeddus.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**10. Bioamrywiaeth**

a. Llythyr (13/7/2023) oddi wrth Geraint yn awgrymu gwahodd Mr Rhys Owen, Pennaeth Cadwraeth, Parc Cenedlaethol Eryri neu Mr Rhodri Jones, Cyngor Cymuned Llanuwchllyn, y ddau gyda phroffiad Bioamrywiaeth, i'n cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i Geraint iddo wahodd unrhyw un o'r ddau i'n cyfarfod Medi 12.

Anfonwyd (14/7/2023) llythyr i Mr Rhys Owen, Pennaeth Cadwraeth yn ei wahodd i'n cyfarfod mis Medi i roi gwybodaeth ar Fioamrywiaeth.

Derbyniwyd llythyr ateb (14/7/2023) oddi wrtho yn cynnwys dogfennau canllawiau Llywodraeth Cymru ar y mater. Cynnwys yn y llythyr mae linc i Gynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth ar 6 Hydref bydd o ddiddordeb.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Derbyniwyd (13/7/2023) oddi wrth Elfed copi o adroddiad Llangywer ar Fioamrywiaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (14/7/2023) oddi wrth Geraint yn rhoi gwybod am alwad ffôn derbyniodd oddi wrth Lizzie Richardson, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â Bioamrywiaeth . Roedd hi'n gofyn a fyddai modd iddi ddod draw ryw ddiwrnod i edrych o gwmpas a thrio cael rhyw syniad yn ei phen o bethau fedrwn geisio eu gwneud. Mae yna bot o arian yn agored ar hyn o bryd, felly os oes gennym syniadau mi fedr roi cais i mewn am nawdd. Roedd Geraint angen gwybod gan yr aelodau pa ddiwrnod ac amser bydd ddim yn gyfleus i ni gyfarfod Lizzie Richardson.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Trefnodd Geraint gyfarfod gyda Lizzie Richardson yn y fynwent dydd Iau, 27/7/2023 am 10.00yb.

Yn bresenol oedd Geraint, Delyth, Simon, Eleri a Henry. Yn y cyfarfod archwilwyd tir y fynwent a darn o dir sydd ochr deheuol o'r hen bont Llanelltyd.

Penderfynwyd bydd Simon yn cysylltu â'r Parc ynglŷn â chynlluniau bwriedir ei wneud ar y ddau leoliad. Hefyd bydd Delyth yn gwneud ymoliadau gyda Priffyrdd, Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r tir wrth yr hen bont Llanelltyd.

Llythyr (14/8/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i Delyth yn rhoi gwybod byddai'r lleoliad yn addas ar gyfer plannu blodau gwyllt cyn belled a bod mynediad i'r Priffyrdd gario allan archwiliad o'r hen bont.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Derbyniodd yr aelodau gopi o adroddiad a chynllun cafodd ei wneud gan Simon ar Fioamrywiaeth – Proposed Biodiversity Project for Llanelltyd and Bontddu Community Council for 2023-24.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a'r cynllun a rhoi gwybod i'r Parc ein dymuniad am y grant llawn o £3,248.

d.  Llythyr (30/8/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am online seminar 'Making Space for Nature in our Burial Grounds' bydd yn cael ei gynnal gan Association for Public Service Excellence (APSE) ar 6/9/2023.  Cost y seminar fydd £184.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd.  Llythyr (8/9/2023) oddi wrth Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Partneriaeth Natur Gwynedd wedi cael arian i wella'r amgylchedd er budd Natur.  O dan ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 mae angen cynghorau cymuned i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ar dir rydym yn berchen neu gyfrifol amdano. Enghreifftiau beth ellir ei wneud o dan raglen waith Cymunedau Gwyrdd Gwynedd: creu tir o flodau, creu coedlan, cynnal tiroedd er budd natur.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**<u>11.  Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths</u>**

a.  Taflen wybodaeth Llywodraeth Cymru am 20mya (3/8/2023).

Anfonwyd y daflen i'r aelodau.

b.  Llythyr (14/8/2023) oddi wrth Pennaeth Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth ar sefyllfa gyfredol o ran perchnogaeth yr ysgolion a fu gau yn sgil ad-drefnu Ysgolion.
Ysgol Clogau – Trosglwyddwyd i fuddiolwr rhoddwr gwreiddiol y safle yn unol â gofyn cyfreithiol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c.  Llythyr (21/8/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith torri gwair gwledig wedi bod yn araf oherwydd roedd rhaid newid contractwr i un arall sydd ddim yn gyfarwydd â'r ardal  Roedd hyn wedi golygu rhoi gwybodaeth o'r ffyrdd oedd angen sylw.  Bydd y gwaith y contractwr wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch.  Llythyr (3/9/2023) oddi wrth Mantell Gwynedd yn rhoi gwybod am eu grant sydd ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol.  Mae'r grant at brosiect bydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d.  Llythyr (12/9/2023) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod maent am dorri coed llarwydden (larch) heintus sydd ar dir tu ôl i dai Bro Cymer.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.


Llofnod: Dyddiad:

## 12. Materion Aelodau

a. Gofynnwyd i John Williams (11/8/2023) i glirio gorrdyfiant ar lwybr sydd wrth Bont Figra, Bontddu. Mae hyn wedi cwyn cafwyd ar ei gyflwr.

b. Cafwyd gwybod (19/8/2023) gan Elfed bod y blwch llythyrau wrth loches fysus, Taicynhaeaf ddim yno mwyach.

Cafwyd wybod gan Swyddfa Bost Brenhinol roedd angen symud y blwch oherwydd roedd y polyn oedd yn ei ddal wedi pydru ac angen un newydd.

Mae'r blwch yn ôl yn ei le.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen ysgubo a chlirio cwterydd ar ffordd sy'n arwain o'r ffordd A496 at Eglwys Caerdeon. (Mae'r lleoliad ym mhlwyf Cyngor Tref Abermaw).

ch. Dyfodol y Clerc. Mae'r aelodau yn gwneud ymdrech i gael Clerc newydd.

----------

 Llofnod: Dyddiad: